

Gofal plant a chyflogaeth rhieni: Crynodeb o sesiynau bord gron

Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Equality and Social Justice Committee

Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn crynhoi'r prif themâu sy'n dod i'r amlwg o'r cyfarfod bord gron a gynhaliodd y Pwyllgor ar 22 Tachwedd. Roedd 12 o gyfranogwyr, wedi'u rhannu'n 3 grŵp. Roedd y rhain yn cynnwys darparwyr gofal plant, staff o sefydliadau sy'n cynrychioli darparwyr gofal plant, cynrychiolwyr o awdurdodau lleol, a staff o sefydliadau trydydd sector.

Y prif themâu

Effaith a chwmpas y Cynnig Gofal Plant

Er bod rhai cyfranogwyr yn teimlo bod y Cynnig Gofal Plant wedi bod o fudd wrth helpu rhieni i gael cyflogaeth, i weithio oriau ychwanegol, a helpu rhieni i osgoi gorfod dibynnu ar eu teuluoedd, roedd eraill yn teimlo nad oedd digon o dystiolaeth i ffurfio barn am hyn.



Cododd un cyfranogwr y gwerthusiad o'r Cynnig Gofal Plant yr ymgwymerodd Arad ag ef, a dynnodd sylw at ei argymhelliad i Lywodraeth Cymru wneud gwaith ymchwil ar y pwnc hwn.

Cododd rhai cyfranogwyr y costau gofal plant ymlaen llaw y mae teuluoedd ag incwm isel yn eu hwynebu fel rhwystr i gael mynediad at ofal plant, ac i famau sy'n mynd i fyd gwaith. Awgrymodd un cyfranogwr yng ngrŵp 3 y cynllun a gyflwynwyd yn ddiweddar gan Weithrediaeth Gogledd Iwerddon fel ffordd o ymdrin â hyn.

Codwyd diffyg gofal plant addas i deuluoedd lle y mae rhieni'n gweithio oriau annodweddiadol gan nifer o gyfranogwyr. Dywedodd cyfranogwr o grŵp 2 sy'n cynnal darpariaeth a ddefnyddir gan lawer o rieni sy'n gweithio sifftiau fod agor yn gynharach yn y bore yn rhoi mwy o hyblygrwydd, ond na fyddai am i'w lleoliad agor yn hwyrach yn y nos. Awgrymodd un cyfranogwr o grŵp 3 y bydd yr Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant y bydd awdurdodau lleol yn eu cynnal yn rhoi sylfaen dystiolaeth ynghylch darpariaeth, a gobeithio y bydd yn sbarduno newidiadau.

Pwysleisiodd grŵp 2 rwystrau ychwanegol y mae teuluoedd o leiafrifoedd ethnig yn eu hwynebu gan fod rhai cymunedau'n llai tebygol o ddefnyddio darpariaeth gofal plant. Awgrymwyd y gallai'r Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant wneud mwy i ymgysylltu â grwpiau lleiafrifoedd ethnig, er enghraifft gyda'r gymuned Bwylaidd a'r cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Dywedodd cyfranogwr y canlynol:

I think the settings don't always know what the needs of the community are ... I think settings do satisfaction surveys but they don't always have the time and resources to seek out the views of specific groups within their community ... need to make sure settings are marketed which taps into the needs of the community.

Tynnodd nifer o gyfranogwyr yn y grwpiau sylw at yr heriau i bobl hunangyflogedig a oedd am gael mynediad at ddarpariaeth i'w plant. Soniwyd am y baich gweinyddol ar rieni hunangyflogedig i lenwi ffurflenni, ynghyd â'r cymorth y mae'n ofynnol i ddarparwyr ei roi, er yr ystyriwyd bod y cymorth gan Cyllid a Thollau EM yn ddefnyddiol. Er enghraifft, soniodd un cyfranogwr am gynghori teulu ffermio i beidio â phrynu tractor newydd pan oedd yn ceisio cael mynediad at y Cynnig Gofal Plant am fod angen dangos lefel benodol o broffidioldeb.

Estyn y Cynnig Gofal Plant i blant dwy flwydd oed

Er i lawer o gyfranogwyr groesawu'r cyhoeddiad am estyn y Cynnig Gofal Plant, gwnaed y pwynt bod rhieni'n gwneud dewisiadau ynghylch trefniadau gweithio pan ddaw cyfnod mamolaeth i ben, a bydd rhieni'n dal i wynebu costau gofal plant bryd hyn sy'n fwy na'r hyn y mae llawer o rieni, yn enwedig mamau, yn ennill.

Roedd gan y cyfranogwyr rai cwestiynau am y manylion ynghylch estyn y cynnig. Roedd y rhain yn cynnwys a fyddai'r holl blant dwy flwydd oed yn cael gofal plant neu a fyddai meini prawf cymhwysedd, faint o oriau'r wythnos a fyddai'n cael eu cynnwys yn yr estyniad, a phryd y byddai'n cael ei gyflwyno. Cododd un grŵp gwestiynau ynghylch sut y byddai'r cytundeb yn effeithio ar ymrwymiad presennol y Rhaglen Lywodraethu i ddarparu gofal plant i blant tair a phedair blwydd oed y mae eu rhieni mewn addysg neu hyfforddiant.

Cododd cyfranogwyr faterion ymarferol y bydd angen i Lywodraeth Cymru eu hystyried wrth gyflwyno'r polisi megis buddsoddi mewn mwy o le a mwy o staff, yn unol â'r angen pan gyflwynwyd y Cynnig Gofal Plant. Ystyriaeth benodol a godwyd yng ngrŵp 1 oedd bod angen un aelod o staff ar gyfer pob pedwar plentyn dwy flwydd oed, sy'n wahanol i blant tair a phedair blwydd oed, lle y mae angen un aelod o staff ar gyfer pob wyth o blant.

Y gweithlu gofal plant

Cododd llawer o gyfranogwyr y lefelau cyflog isel yn y sector gofal plant, gydag un o grŵp 3 yn dweud bod y swydd fel un â'r un cyflog ag Aldi, ond â llawer mwy o gyfrifoldeb, ac un arall o grŵp 1 yn dweud ei fod yn 'fater magl 22' lle y mae angen cyflogau gwell, ond mae angen i chi hefyd gadw'r costau i rieni mor isel â phosibl. Cododd nifer o gyfranogwyr sy'n ddarparwyr gofal plant yr angen i gynyddu'r gyfradd fesul awr, sef £4.50, y mae Llywodraeth Cymru yn ei thalu i ddarparwyr gofal plant mewn perthynas â'r Cynnig Gofal Plant, gan y byddai hyn yn galluogi darparwyr i dalu cyflogau uwch, ac i helpu gyda chostau sy'n gysylltiedig â hyfforddiant a gwiriadau'r GDG.

Er mwyn ymdrin â hyn, awgrymodd rhai cyfranogwyr fwy o gysiau gofal plant mewn ysgolion, a chodi ymwybyddiaeth o ofal plant fel gyrfa. Roedd un cyfranogwr o grŵp 1 yn teimlo y gallai'r 30 awr o wirfoddoli sy'n ofynnol ar gyfer Bagloriaeth Cymru fod yn gysylltiedig â darpariaeth gofal plant i hyrwyddo gofal plant fel gyrfa.

Roedd y cyflogau isel wedi arwain at brinder staff yn y sector, gan fod staff wedi gadael i weithio mewn swyddi â chyflog gwell. Er bod cyfranogwyr o'r farn mai mater ledled y DU yw hyn, cododd cyfranogwyr hefyd faterion penodol wrth recriwtio digon o staff i ddarparu darpariaeth gofal plant Gymraeg. Ymhlith y ffactorau a oedd yn effeithio ar hyn oedd diffyg siaradwyr Cymraeg mewn rhai rhannau o Gymru, staff cymwysedig yn symud i ysgolion, sydd â chyflog ac amodau gwell, a chymhlethdodau ynghylch cymwysterau.

Cododd un cyfranogwr o grŵp 2 lefelau isel o staff o leiafrifoedd ethnig, gan nodi bod angen recriwtio mwy o staff i alluogi cynefindra a dealltwriaeth, ac i ddarparwyr adlewyrchu eu cymuned leol.

Gofal plant i blant oedran ysgol

Roedd barn un cyfranogwr mai loteri yw gofal cofleidiol yn crynhoi barn pobl eraill yng ngrŵp 3. Rhoddwyd enghraifft o ysgol yng Nghaerdydd lle y bu rhieni'n ciwio o'r oriau mân er mwyn sicrhau lle i'w plant yn y clwb brecwast.

Weithiau, mae'n rhaid i rieni gludo plant rhwng lleoliadau, a phwysleisiodd rhai cyfranogwyr o grŵp 3 y gall costau gofal yn ystod gwyliau, yn enwedig, fod yn ddrud, a bod angen car yn aml er mwyn cael mynediad ato.

Tynnodd darparwyr gofal plant sylw at faterion sy'n ymwneud â chynaliadwyedd darpariaeth gofal cofleidiol a gofal yn ystod gwyliau. Dywedodd un cyfranogwr o grŵp 2 y canlynol:

We used to provide holiday places but because the Childcare Offer runs for 48 weeks of the year parents are using those childcare hours during the holiday too ... This does have a knock-on effect for children of other age groups

Hefyd, soniodd fod cynnal y Cynnig Gofal Plant am 48 wythnos y flwyddyn wedi effeithio ar gynaliadwyedd rhai darparwyr, gan nad oes ar rieni angen darpariaeth gofal yn ystod gwyliau mwyach. Tynnodd cyfranogwyr grŵp 2 sylw at eu pryderon ynghylch effaith darparwyr anghofrestredig gofal yn ystod gwyliau ar ddarparwyr cofrestredig, a all ddarparu gofal plant dan y gorchymyn eithriadau, yr oedd yn teimlo bod angen ei adolygu. Dywedodd un cyfranogwr o'r grŵp hwn y canlynol:

We have had situations where they have been running from a school or a community building and there is an unregulated holiday camp and have put a childcare setting out of business and the local authority were

advertising the unregulated holiday camp ... children have the right to be safeguarded and parents to know there are policies in place and a lot of parents don't know the difference between a Care Inspectorate Wales provision and one that is operating outside of the national minimum standards and when they see the local authority advertising it they think they are endorsing it ... brilliant to see investment in SHEP [the School Holiday Enrichment Programme] or holiday of fun but we mustn't lose sight of the regulated provision ... we must find a way to work in partnership.

Mae'r pandemig wedi cael effaith ar glybiau y tu allan i oriau ysgol yn arbennig, gydag un cyfranogwr yn tynnu sylw bod 19 y cant o glybiau wedi cau'n barhaol ers mis Mawrth 2020 gydag eraill ar gau dros dro o hyd. Hefyd, dywedodd y cyfranogwr fod angen i rai lleoliadau leihau capasiti, oherwydd rhesymau megis diffyg staff a mesurau rheoli heintiau. Tynnodd cyfranogwr mewn grŵp arall sylw, pan oedd diffyg staff yn golygu bod angen cau lleoliad roedd yn ei gynnal, fod cryn adlach gan rieni, am eu bod yn daer i'r cyfleuster hwn barhau.

Gofal plant mewn cymunedau lleol

Roedd rhai cyfranogwyr yn teimlo y gallai ysgolion fod â mwy o rôl wrth ddarparu gofal plant, ac y dylid cael mwy o weithio mewn partneriaeth rhyngddynt a darparwyr gofal plant. Mae rhai enghreifftiau da o hyn, ond nododd un cyfranogwr fod perthynas 'nhw a ni' yn tueddu i fod rhwng ysgolion a darparwyr gofal plant. Nododd cyfranogwr arall yn yr un grŵp y canlynol:

I managed a Flying Start setting on a school site and we had a number of issues – we couldn't be key holders ... we were not allowed to use their bins ... we were supposed to open during the school holidays but we couldn't because the caretaker wouldn't allow us access to the site.

Ystyriwyd bod ysgolion bro yn ateb posibl i hyn, ac awgrymwyd y dylid dylunio ysgolion newydd gyda gofal plant mewn golwg. Mynegodd un cyfranogwr bryder hefyd mai ychydig iawn o gyfleusterau cymunedol oedd gan ddatblygiadau tai newydd weithiau, ac y dylid cadw anghenion gofal plant mewn cof.

Gwarchodwyr plant

Tynnodd nifer o gyfranogwyr sylw at bwysigrwydd gwarchodwyr plant i ddarparu gofal plant fforddiadwy, yn enwedig mewn ardaloedd difreintiedig a gwledig lle y

mae'n bosibl na fydd digon o alw am ddarpariaeth clwb ar ôl ysgol. Fodd bynnag, mynegwyd pryder ynghylch y dirywiad mewn gwarchodwyr plant, a'r effaith y gall hyn ei chael ar deuluoedd sy'n gweithio oriau annodweddiadol er enghraifft.

Dywedodd un cyfranogwr yng ngrŵp 1 fod y cwmp yn nifer y gwarchodwyr plant yn waeth nag yn y sector gofal, ac awgrymodd y cyfranogwr fod angen ymgyrch recriwtio bwrpasol i gynyddu'r nifer.